# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

**RHAN 3**

TREFNIADAETH YSGOLION

**PENNOD 3**

RHESYMOLI LLEOEDD YSGOL

*Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â chynigion o dan adran 59*

### 60 Gwrthwynebiadau

(1) Caiff unrhyw berson wrthwynebu cynigion a gyhoeddir o dan adran 59.

(2) Rhaid i wrthwynebiadau gael eu hanfon yn ysgrifenedig at Weinidogion Cymru cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y cafodd y cynigion eu cyhoeddi.

### 61 Ymchwiliad lleol i gynigion

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru wedi gwneud cynigion o dan adran 59 (ac eithrio cynigion a wnaed yn rhinwedd adran 62(1)) nad ydynt wedi eu tynnu'n ôl.

(2) Os yw gwrthwynebiadau wedi eu gwneud yn unol ag adran 60(2), yna, oni fydd pob gwrthwynebiad sydd wedi ei wneud felly wedi ei dynnu'n ôl yn ysgrifenedig o fewn yr 28 o ddiwrnodau y cyfeiriwyd atynt yn yr adran honno, rhaid i Weinidogion Cymru beri bod ymchwiliad lleol yn cael ei gynnal.

(3) Diben yr ymchwiliad lleol yw ystyried cynigion Gweinidogion Cymru, unrhyw gynigion eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu cyfeirio at yr ymchwiliad a'r gwrthwynebiadau a grybwyllwyd yn is-adran (2).

(4) Mae cynigion a gyfeirir at ymchwiliad lleol o dan yr adran hon i'w penderfynu o dan adran 62 ac nid yw adrannau 50, 51, 53, 54, 70 a 73 yn gymwys iddynt.

(5) Pan fo'n ofynnol i ymchwiliad lleol gael ei gynnal, rhaid i Weinidogion Cymru gyfeirio'r cynigion a restrir yn is-adran (6) i'r ymchwiliad os yw'r cynigion—
  (a) heb gael eu penderfynu cyn i drafodion yr ymchwiliad ddechrau, a
  (b) yn ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn rhai sy'n gysylltiedig â'r cynigion a wnaed o dan adran 59 ac y mae'r ymchwiliad i'w gynnal mewn cysylltiad â hwy.

(6) Y cynigion sydd i'w cyfeirio yw—
  (a) unrhyw gynigion eraill a gyhoeddir o dan adran 59 mewn perthynas ag ardal yr awdurdod lleol (ac sydd heb gael eu tynnu'n ôl);
  (b) unrhyw gynigion a wneir gan yr awdurdod hwnnw wrth arfer eu pwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion (ac sydd heb gael eu tynnu'n ôl);
  (c) unrhyw gynigion a wneir gan gorff llywodraethu ysgol sefydledig neu wirfoddol yn yr ardal wrth arfer ei bwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol (a'r rheini'n gynigion sydd heb gael eu tynnu'n ôl);
  (d) unrhyw gynigion a wneir o dan adran 68 neu 71 (ac sydd heb gael eu tynnu'n ôl).

(7) Os bydd Gweinidogion Cymru, cyn bod trafodion yr ymchwiliad yn dechrau, yn ffurfio barn y dylid gweithredu unrhyw gynigion, nid yw is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gyfeirio'r cynigion hynny i'r ymchwiliad oni fyddant yn ffurfio barn wahanol cyn bod—
  (a) trafodion yr ymchwiliad wedi eu cwblhau, neu
  (b) (os ydynt yn gynharach) y cynigion wedi eu penderfynu.

(8) Nid yw'n agored i'r ymchwiliad gwestiynu'r egwyddorion a bennir yn y cyfarwyddyd o dan adran 57(2).

(9) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at benderfynu cynigion yn cyfeirio at—
  (a) penderfyniad p'un ai i fabwysiadu neu i gymeradwyo'r cynigion o dan adran 50, 51, 62, 70 neu 73;
  (b) penderfyniad p'un ai i weithredu'r cynigion o dan adran 53 ai peidio;
  (c) penderfyniad p'un ai i gymeradwyo cynigion a atgyfeiriwyd i Weinidogion Cymru o dan adran 54 ai peidio.

### 62 Mabwysiadu cynigion

(1) Pan fo ymchwiliad lleol wedi ei gynnal, caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried adroddiad y person a benodwyd i gynnal yr ymchwiliad, wneud un neu fwy o'r canlynol —
  (a) mabwysiadu, gydag addasiadau neu hebddynt, neu benderfynu peidio â mabwysiadu unrhyw un o'r cynigion a wnaed gan Weinidogion Cymru (gan gynnwys cynigion a wnaed ganddynt, a gyfeiriwyd o dan adran 61(5)) ac a ystyriwyd gan yr ymchwiliad;

(b) cymeradwyo, gydag addasiadau neu hebddynt, neu wrthod unrhyw gynigion eraill a gyfeiriwyd at yr ymchwiliad o dan adran 61(5);

(c) gwneud cynigion pellach o dan adran 59.

(2) Os bydd Gweinidogion Cymru'n gwneud cynigion pellach o dan adran 59 yn unol ag isadran (1)(c), ni fydd y gofyniad yn adran 61(2) i beri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal yn gymwys.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi cynigion o dan adran 59 nad yw'n ofynnol iddynt gael eu hystyried gan ymchwiliad lleol, cânt, ar ôl ystyried unrhyw wrthwynebiadau a wnaed yn unol ag adran 60(2) (ac sydd heb gael eu tynnu'n ôl)—

(a) mabwysiadu'r cynigion gydag addasiadau neu hebddynt, neu

(b) penderfynu peidio â mabwysiadu'r cynigion.

(4) Caniateir i fabwysiad neu gymeradwyaeth cynigion ddatgan mai dim ond os bydd digwyddiad a bennir yn y mabwysiad neu'r gymeradwyaeth yn digwydd erbyn dyddiad a bennir felly, y byddai'n dod yn weithredol.

## 63 Gweithredu cynigion

(1) Mae cynigion sydd wedi eu mabwysiadu neu eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 62 yn cael effaith fel petaent wedi eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 50 ar ôl iddynt gael eu gwneud—

(a) gan yr awdurdod lleol o dan ei bwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion, neu

(b) yn achos cynigion i newid ysgol sefydledig neu wirfoddol, gan y corff llywodraethu o dan ei bwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol.

(2) Er gwaethaf unrhyw beth yn Rhan 1 o Atodlen 3 (cyfrifoldeb dros weithredu cynigion statudol), rhaid i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol dan sylw gwrdd â'r gost o weithredu cynigion sy'n cael eu mabwysiadu neu eu cymeradwyo o dan adran 62 ac sy'n cael effaith fel a grybwyllwyd yn is-adran (1)(b).